

Y Pwyllgor Cyllid

Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Gweinyddu) (Cymru) 2018

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid o dan Reol Sefydlog 27.8A.

Cefndir a diben

01. Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer materion amrywiol yn ymwneud â gweinyddiaeth treth trafodiadau tir.
02. Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau yn nodi'r amgylchiadau y mae'n rhaid i Awdurdod Cyllid Cymru gyflwyno tystysgrif yn dilyn derbyn ffurflen dreth wedi ei dychwelyd a materion gweinyddol eraill yn ymwneud â'r dystysgrif.
03. Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau yn rhagnodi'r dystiolaeth y mae'n rhaid ei chyflwyno i Awdurdod Cyllid Cymru lle caiff rhyddhad ei hawlio o dan Atodlen 11 o Ddeddf Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 mewn achos o drafodiadau tir penodol sy'n gysylltiedig â bondiau buddsoddi cyllid arall.

Y weithdrefn

04. Negyddol.

Craffu ar y rhinweddau

05. Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Amcanion polisi

06. **Datganiad ar y bwriad polisi**
07. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i graffu ar y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru), rhoddodd Llywodraeth Cymru wybodaeth am y bwriad polisi ar gyfer y pwerau dirprwyedig o fewn y Bil.

Rhan 1



Rheoliadau 1–2

08. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod y rheoliadau'n dod i rym ar y diwrnod y dechreuir codi'r dreth trafodiadau tir ac maent yn diffinio'r derminoleg.

Rhan 2

Rheoliadau 3–6

09. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch tystysgrifau Awdurdod Cyllid Cymru.

10. Mae pob un o'r rheoliadau **yn cyd-fynd â** pholisïau cysylltiedig yn y datganiad.

11. Nodir bod Adran 64(5) o'r Bil yn datgan “Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch tystysgrifau Awdurdod Cyllid Cymru, gan gynnwys yr amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn i dystysgrif gael ei rhoi; dyroddi tystysgrifau dyblyg; a dyroddi tystysgrifau lluosog”.

Rhan 3

Rheoliadau 7–10

12. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno tystiolaeth ragnodedig mewn perthynas â rhyddhad bondiau buddsoddi cyllid arall fel rhan o Atodlen 11 i'r Ddeddf.

13. Mae pob un o'r rheoliadau a gyflwynwyd yn y Rhan hon **yn cyd-fynd â** pholisïau cysylltiedig yn y datganiad.

14. Nodwyd bod paragraffau 9(1), 16 a 18(5) o'r Bil yn datgan bod “gan Weinidogion Cymru y pŵer i ragnodi darpariaethau pellach mewn rheoliadau ar gyfer gweithredu'r rhyddhad [bondiau buddsoddi cyllid arall]” mewn perthynas â thystiolaeth ragnodedig.

15. Fodd bynnag, mae Rheoliad 9 yn rhagnodi tystiolaeth at ddibenion paragraff 18(4)(a), **nad ydyw wedi'i chynnwys** yn y datganiad.

Gwaith craffu Cyfnod 1 gan y Pwyllgor Cyllid

16. Ni wnaed unrhyw sylwadau.

Ymatebion i'r ymgynghoriad



Ymgynghoriad y Cynulliad

17. Ni wnaed unrhyw sylwadau.

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

18. Ni wnaed unrhyw sylwadau.

Rheoliadau yn yr Alban

Rheoliadau 3-6

19. Dim deddfwriaeth yn ymwneud â thystysgrifau ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir ac Adeiladau.

Rheoliadau 7-10

20. Mae Atodlen 8 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (Yr Alban) 2013 yn deddfu ar gyfer bondiau buddsoddi cyllid arall. Mae Rheoliadau 7 i 10 yn adlewyrchu rheoliadau cyfatebol yn Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (Gweinyddu) (Yr Alban) 2014.

Rheoliadau'r DU

21. Nid oes gwahaniaethau nodedig rhwng y rheoliadau.

Rheoliadau 3-6

22. Mae Adran 79 o Ddeddf Cyllid 2003 yn deddfu ar gyfer cofrestru trafodiadau tir. Mae Rheoliadau 3 i 5 yn adlewyrchu rheoliadau cyfatebol yn Rheoliadau Treth Dir y Dreth Stamp (Gweinyddu) 2003.

23. Fodd bynnag, mae Rheoliad 6 yn nodi bod **rhaid** i ACC, ar ofyn, ddarparu tystysgrifau ar wahân ar gyfer pob trafodiad treth dir. Mae hyn ychydig yn wahanol i Rheoliadau'r DU, sy'n nodi y **caiff** Cyllid y Wlad (Inland Revenue) ddarparu tystysgrifau ar wahân.

Rheoliadau 7-10

24. Mae Adran 61 o Ddeddf Cyllid 2009 yn deddfu ar gyfer bondiau buddsoddi cyllid arall. Mae Rheoliadau 7 i 10 yn adlewyrchu rheoliadau cyfatebol yn Rheoliadau Bondiau Buddsoddi Cyllid Arall (Treth Dir y Dreth Stamp) (Tystiolaeth Ragnodedig) 2009.



Ymateb y Llywodraeth

25. Ni chodwyd unrhyw bwyntiau o dan 'craffu ar rinweddau'.

Safbwynt y Pwyllgor

26. Nododd y Pwyllgor y Rheoliadau.

